<i>onide</i> ,	or else	<i>treial-on</i> , m.	trial-s, trouble-s
<i>os dewisi</i> ,	if you like	<i>trwm</i> ,	heavy
<i>os felly</i> ,	if so	<i>tyner</i> ,	mild
<i>paid</i> ,	don't	<i>tyred</i> ,	come
<i>parchu</i> ,	to respect, to	<i>uniailh</i> ,	monoglot, able
	honour		to speak only
<i>parwb</i> ,	everybody		one language
<i>pelllder-au</i> ,	distance-s	<i>yfory</i> ,	tomorrow
<i>oedd</i> , m.		<i>yn gwrando'n</i>	
<i>penaf</i> ,	chief	<i>astud</i> ,	listening atten-
<i>perthynas-au</i> ,	relation-s		tively
m.		<i>yn mhellach</i> ,	further
<i>plentyn</i> , <i>plant</i> ,	child-ren	<i>yn rhynu</i> ,	shivering
m.		<i>ynte</i> ,	then
<i>Prydain</i> , f.	Britain	<i>ysbryd</i> , m.	spirit
<i>prydawn</i> , m.	afternoon	<i>Ysgol Sul</i> , f.	Sunday School

PART II.

EXERCISES FOR TRANSLATION.

14.—LLONGAU MADOG—(Madog's Ships).

Mab Owen Gwynedd oedd Madog. Ni fedrai oddef gwel'd y gelyn yn ei wlad. Am hyny efe a gymerodd longau, aeth ef a'i wyr iddynt, a hwyliodd y llongau i'r môr. Ni chlywodd neb air am Fadog a'i wyr byth mwy. Dywed rhai iddynt oll foddi yn y môr ; dywed rhai ereill eu bod wedi tirio yn yr America, ac wedi sefydlu Cymru newydd yno.

I.

Wele'n cychwyn dair-ar-ddeg
 O longau bach ar foreu teg ;
 Wele Madog ddewr ei fron
 Yn gadben ar y llynges hon,
 Myn'd y mae i roi ei droed
 Ar le na welodd dyn erioed ;
 Antur enbyd ydyw hon,
 Ond Duw a'i deil o dòn i dòn.

II.

Ser y nos a haul y dydd
 O gwmpas oll yn gwmpawd sydd ;
 Codai corwynt yn y de',
 A chodai'r tonau hyd y ne' ;
 Aeth y llongau ar eu hynt
 I grwydro'r môr yn mraich y gwynt ;
 Dodwyd hwy ar dramor draeth
 I fyw a holl er gwell er gwaeth.

III.

Wele'n glanio dair-ar-ddeg
 O longau bach ar fore teg ;
 Llais y morwyr glywn yn glir
 'Rol blwydd o daith yn bloeddio—"Tir!"
 Canent newydd gân yn nghyd
 Ar newydd draeth y newydd fyd;
 Wele heddwch i bob dyn,
 A phawb yn frenin arno'i hun.

25.—YR HEN GYMRO A'R BRENIN (The old Welshman
 and the King).

Gorchfygodd Harri'r Cyntaf, Brenin Lloegr, Gymru i gyd. Yr oedd wedi dweyd lawer gwaith y mynai ddileu yr Iaith Gymraeg o'r byd. Clywodd y Cymry hyny, a meddylent y buasai y brenin yn lladd y gwyr a'r gwraedd, ac yn myn'd a'r plant i gyd i Loegr. Yn Lloegr y buasent yn dysgu Saesneg, ac yn anghofio hen iaith eu tad a'u mam. Wedi hyny y buasai y brenin yn eu gyru adref i Gymru, ac felly ni fuasai dim ond Saesneg yn Nghymru i gyd o Lanandras i Dyddewi, ac o Gaergybi i Gaerdydd.

Daeth y brenin, gyda holl fyddin Lloegr gydag ef, i'r Gogledd i ddechreu. Ciliodd Gruffydd ab Cynan a'r Cymry o'i flaen i fynyddoedd Eryri. Ac yr oedd ar y Saeson ofn eu dilyn yno. Daeth gwlaw ac ystormydd, a gorfu i Harri gilio'n ol. Gwnaeth heddwch â'r Cymry, ac aeth Owen mab Gruffydd ab Cynan gydag ef i Loegr.

Yn mhen rhai blynyddoedd daeth i Ddeheudir Cymru, lle yr oedd Rhys ab Tewdwr yn frenin. Ac yr oedd Harri wedi penderfynu dileu yr Iaith Gymraeg o'r De. Yn Mhencader gwelodd hen wr o Gymro oedd wedi gweled llawer tro ar fyd, a gofynodd iddo a oedd yn bosibl lladd yr Iaith Gymraeg. A dyma ddywedodd yr hen wr doeth:

“O frenin, ti elli boeni llawer ar y genedl hon; ti elli wneud llawer o ddrwg iddi, ond ni fedru di ddifodi cenedl y Cymry. Ni fedr llid dyn ddinystrio cenedl, os na fydd llid Duw yn ei herbyn hefyd. Ac ar Ddydd Mawr y Farn pan fydd Duw yn ein galw oll i roddi cyfrif am ein gweithredoedd, yr wyf yn meddwl am holl drigolion y wlad hon mai yn Gymraeg y byddant yn ei ateb!”

Mae saith can' mlynedd oddiar hyny, ac mae'r Iaith Gymraeg heddyw yn fyw, ac yn cael ei siarad genym ni, ac yn cael ei dysgu yn ein hysgolion.

16.—TYWYSOG CYMRU (The Prince of Wales).

Wedi marw Llewelyn, Brenin Cymru, rhaid oedd i'r Cymry gael tywysog newydd. Ond yr oedd Iorwerth, Brenin Lloegr, wedi penderfynu na chaent yr un brenin ond efe. Gwyddai mai rhyfela yn erbyn Lloegr a wnai y Cymry os caent frenin arnynt eu hunain.

Ond nid oedd dim wnai y tro i Gymry y De a'r Gogledd ond cael Cymro yn frenin arnynt. Ac o'r diwedd addawodd Iorwerth Gymro yn frenin iddynt os aent i'w gyfarfod ef i Gaernarfon yn yr haf.

Ar lan y Fenai y mae Castell Caernarfon. Bu Iorwerth y Brenin a'i Frenines yno'n aros, ac yno y ganwyd mab hynaf y brenin.

Yn yr haf daeth y Cymry i Gaernarfon i ofyn i'r brenin gyflawni ei addewid, a rhoddi Cymro yn dywysog iddynt. A dyma'r brenin yn dyfod atynt, a'r baban bach yn ei freichiau, ac yn dywedyd wrthynt:—“Wele eich dyn! Dyma i chwi Gymro bach wedi ei eni yn Nghymru, ac ni fedr air o Saesneg!”

Gwenodd y Cymry wrth ei weled, a dywedasant mai efe a gai fod yn frenin Cymru. Daeth pob un at ei gryd i'w gusanu, ac yna aethant adref yn llawen wrth feddwl

mai'r Cymro bach fyddai Brenin Cymru. Rhoddwyd y baban i Gymraes i'w fagu, gyda bachgen o'r enw Hywel, a dyma fel y canai uwchben ei gryd :—

“ Myfi sy'n magu'r baban gwan
 Mewn pryder nos a dydd,
 A brenin enwog yw ei dad,
 Ac yntau brenin fydd.
 Rhy wan wyf fi, rhaid edrych fry,
 Am un i'w gadw'n iach ;
 O bydded Brenin Mawr y nef
 Wrth gryd y brenin bach.”

A byth ar ol hyny Tywysog Cymru y gelwir mab hynaf y brenin.

17.—MAES BOSWORTH (Bosworth Field).

Bu rhyfel poeth rhwng pobl y Rhosyn Coch a phobl y Rhosyn Gwyn. Nid oedd neb i feddi'rgwenith ; daeth eisieu ar y bobl, ac yr oeddynt yn gwaeddi am heddwch ; ond rhyfel oedd yn bod.

O'r diwedd esgynodd Richard i'r Orsedd. Rhosyn gwyn oedd yn wisgo. Ond nid efe oedd etifedd y Goron. Yr oedd ganddo ddau nai bach amddifad, meibion ei frawd, a hwy ddylasant wisgo'r Goron. Ond anfonodd Richard hwynt i Dwr Llundain, a phan oeddynt yn cysgu yn dawel ryw noson daeth dau lofrudd oddiwrth y brenin i'w mygu. Yr oedd gan y ddau dywysog bach chwaer o'r enw Elisabeth. Treiodd Richard ei chael hithau i'w afael, ond cadwodd Daw hi. A hi oedd etifeddes y Rhosyn Gwyn.

Etifedd y Rhosyn Coch oedd Harri Tewdwr. Mab oedd ef i Owen Tewdwr o Benmynydd, Sir Fon. Cafodd ei dad ei ladd gan bobl y Rhosyn Gwyn, a diangodd yntau dros y môr i Lydaw. Ond wrth glywed mor druenus

oedd cyflwr y bobl, daeth adref i ymladd â Richard. Glaniodd yn Sir Benfro, a daeth holl wyr Deheudir Cymru i'w gyfarfod i'w groesawi. Cychwynodd i gyfarfod Richard, ac ar y ffordd daeth milwyr Gogledd Cymru a llawer o'r Saeson i ymuno âg ef.

Cyfarfyddodd y ddwy fyddin ar Faes Bosworth. Cyn y frwydr daeth llawer o filwyr Richard at Harri. Yna dechreuwyd ymladd. Lladdwyd Richard, tynwyd y goron oddiar ei ben, a rhoddwyd hi ar ben Harri. A bloeddiodd y ddwy fyddin, "Byw fyddo'r Brenin Harri."

Bu heddwch wedy'n drwy'r wlad i gyd. Ni fu ymladd byth wedy'n rhwng y Cymry a'r Saeson, oherwydd mai Cymro oedd brenin Lloegr. Priododd Harri, etifedd y Rhosyn Coch, ac Elisabeth, etifeddes y Rhosyn Gwyn, ac ni fu rhyfel rhwng y ddau rosyn mwyach.

18.—MARI JONES A'I BEIBL.—(Mary Jones and her Bible.)

Can' mlynedd yn ol yr oedd yn anhawdd iawn cael Beibl ; ychydig iawn oedd yn meddu un.

Yr adeg hono yr oedd Charles o'r Bala, gwr da ac anwyl gan bob Cymro, yn fyw. Yr oedd ganddo ysgolion ar hyd y wlad i ddysgu plant i ddarllen. Yr oedd un o'r ysgolion hyn wrth draed Cader Idris. I'r ysgol hon yr oedd geneth fach o'r enw Mari Jones yn myned. Dysgodd ddarllen yn dda. Yr oedd Beibl mewn ffermdy filldir o'i chartref, a byddai yn myned yno bob boreu i'w ddarllen. Nid oedd gan ei thad Feibl, ac yr oedd yn rhydlawd i brynu un.

Ond penderfynodd Mari gael Beibl iddi ei hun. Bu am hir amser yn cynilo pob dimai a gai, ac o'r diwedd yr oedd wedi casglu digon i brynu Beibl.

Ond nid oedd yr un Beibl ar werth yn nes na'r Bala,

ac yr oedd y ffordd yno yn arw, ac yn bum' milldir-
hugain o hyd. Ond cerddodd yr eneth fach hwy i gyd
yn droednoeth er mwyn cael Beibl.

Daeth i'r Bala rhyw fin nos yn lluddedig iawn, a
chafodd aros yn nhŷ hen bregethwr. Ar doriad y wawr
aeth yr hen bregethwr â hi i dŷ Mr. Charles. Ond erbyn
myned yno, yr oedd y Beiblau wedi eu gwerthu i gyd.
Pan glywodd hyn, torodd Mari i wylo yn chwerw.
Teimlodd Mr. Charles yn ddwys wrth ei gweled yn wylo,
a dywedodd, "Fy ngeneth anwyl i, rhaid i ti gael Beibl,
cymer hwn;" ac estynodd Feibl iddi oedd wedi ei gadw
i gyfaill iddo.

Ac meddai Mr. Charles wrth yr hen wr, "Mi wnaif fy
ngoreu i gael Beibl i bob plentyn yn Nghymru." Ac felly
y gwnaeth. Aeth i Lundain, dywedodd hanes Mari
Jones yno, a sefydlwyd Cymdeithas y Beiblau i roddi
Beibl i bawb o bobl y byd.

Aeth Mari adref a'i Beibl gyda hi. Yr oedd yn
falchach o gael y Beibl na phe buasai wedi cael y byd i
gyd.

19.—CYMRU FYTH—(Wales for Ever).

1.

Mae'n Gymro fyth, pwy bynag yw,
A gar ei wlad ddinam;
Ac ni fu hwnw'n Gymro erioed
A wado fro ei fam.
Aed un i'r gad, a'r llall i'r môr,
A'r llall i dori mawn,
Ond cofio am Gymru yn mhob man
A wnaiff y Cymro iawn.
'Does neb yn caru Cymru'n llai
Er iddo grwydro'n ffol,
Mae calon Cymro fel y trai
Yn siwr o dd'od yn ol.

II.

Er myn'd yn mhell o Walia Wen,
 A byw o honi'n hir,
 Ac er i'r gwallt claerdduaf droi
 Yn wyn mewn estron dir,
 Mae'r cof am dad a mam yn myn'd
 I'r bwthyn yn y ddoi,
 A chlychau mebyd yn y glust,
 Yn galw'r Cymro'n ol.
 'Does neb yn caru Cymru'n llai
 Er iddo grwydro'n ffol,
 Mae calon Cymro fel y trai
 Yn siwr o dd'od yn ol.

III.

Enilled aur ac uchel glod
 Mewn gwlad o win a mêl,
 Aed yn ei longau ar y môr :
 Er maint o'r byd a wel—
 Wrth edrych ar fachludiad haul,
 A gwylio ser y nos,
 Bydd clychau arian yn y gwynt
 Yn son am Gymru dlos.
 'Does neb yn caru Cymru'n llai
 Er iddo grwydro'n ffol,
 Mae calon Cymro fel y trai
 Yn siwr o dd'od yn ol.

20.—Y BREININ A'R ENETH FACH—(The King and the Little Girl).

Pan ar daith trwy ei deyrnas, daeth brenin i bentref
 tlws, lle yr oedd i aros am awr neu ddwy. Yr oedd y
 trigolion yn falch iawn fod y brenin mor ostyngedig ag

ymweled â'u pentref bychan a di-nod. Gwnaethant eu goreu i wneuthur ei arosiad byr yn eu plith yn un hapus. Canodd plant yr ysgol ganeuon croesawol, a gwasgarasant flodau ar y ffordd. Trodd eu rhieni allan yn eu dillad goreu i'w groesawi. Ymwelodd y brenin â'r ysgol, ac amlygodd ei foddhad wrth weled y plant yn myned trwy eu gwersi mor dda.

Cyn myned allan, gofynnodd ganiatad yr athraw i holi y dosbarth isaf. "I ba deyrnas fy mhlant y perthyn yr afal yma?" meddai ef, gan ei ddal o flaen eu llygaid.

"I'r deyrnas lysieuol," oedd atebiad geneth fechan.

"Ac," meddai y brenin, gan dynu darn o aur o'i logell, "i ba deyrnas y perthyn hwn?"

"I'r deyrnas fwnawl," oedd ateb yr un eneth.

"I ba deyrnas y perthynaf fi," meddai y brenin, gan feddwl clywed y plentyn yn ateb, "I'r deyrnas anifeiliaidd."

Ni wyddai yr eneth pa ateb i'w roddi, am y tybiai na buasai yn iawn i ddweyd fod ei brenin yn anifail. Gwelodd y brenin ei bod mewn dyrswch, ac meddai mewn llais calonogol, "Oni ellwch chwi ateb?"

Pan glywodd yr eneth lais tyner yn gofyn yr ail waith, atebodd, "I deyrnas nefoedd, eich Mawrhydi."

Llanwyd llygaid y brenin o ddagrau, ac meddai, gan osod ei law ar ben yr eneth, "Caniataëd Duw i mi fod yn deilwng o'r deyrnas hono."

21.—Y CAWCI A'R PAENOD—(The Jackdaw and the Peacocks).

Ar ben hen gastell preswyliai teulu o gawcïod. Gerllaw iddynt yr oedd palas boneddwr, lle y cedwid paenod.

Yn mhlith y cawcïod yr oedd un nad oedd yn fodd-lawn o'i sefyllfa.

Cenfigenai wrth yr hyn a ystyriai ef yn sefyllfa gysurus y paenod. Nid oedd arnynt eisieu dim. Gofalai y perchenog am danynt, haf a gauaf. Yr oedd ganddynt dŷ cynhes i fyw ynddo. Nid oedd achos iddynt i bryderu yn nghylch pryd o fwyd. Deuai y boneddwr â'u bwyd iddynt yn gyson, ac ni feiddiai neb anelu ei ddryll atynt, tra yr oedd ef yn fynych yn newynog, ac ar sythu yn y twll oedd ganddo fel tŷ.

Ceisiai yn fynych gyfrif am y gwahaniaeth oedd rhyngddo ef a'r paenod.

"Rhaid," meddai ef ar ol hir astudio, "mai eu pluf gwychion sydd wedi enill iddynt ffafr dynion." Yna aeth, a chasglodd y pluf oedd y paenod wedi golli, ac ym-wisgodd ynddynt.

Ar ol gwneuthur ei hun mor debyg ag y medrai i'r paenod oedd gerllaw iddo, aeth i'w plith gan ddysgwyl cael derbyniad calonog, a chael rhan o fywyd moethus y paenod. Ni chafodd ond derbyniad oer ganddynt, oblegyd yr oedd ei gerddediad mor annhebyg i gerddediad paen fel yr amheuent ai paen oedd ai peidio.

Ond yr oedd ei bluf mor debyg fel nas gallent wadu y berthynas. Wedi bod am ychydig amser yn eu plith anghofiodd y cawei ei hunan, a dechreuodd ganu. Deallodd y paenod yn y fan mai twyllwr oedd. Cafodd driniaeth mor arw ganddynt fel y gadawodd hwynt mor gynted ag y gallodd.

Aeth yn ol at ei frodyr a'i chwiorydd, ond ni wyddent hwy mai eu brawd oedd, oblegyd yr oedd pluf y paenod heb eu tynu ffwrdd. Pan amcanodd fyned i'w hen nyth ymosodasant arno yn ddi-drugaredd, a gorfu iddo fyned a byw wrtho ei hun.

22.—Y GWYNT A'R HAUL—(The Wind and the Sun).

Cododd dadl er ys llawer dydd rhwng yr haul a'r gwynt yn nghylch eu cryfder. Pan oeddynt ar ganol y

ddadl gwelsant ddyn yn cerdded ar yr heol, a ch'nddo fantell yn hongian yn rhydd ar ei ysgwyddau.

Cytunasant fod i'r un a lwyddai i dynu y fantell oddiar ysgwyddau y teithiwr yn yr amser byraf, i gael ei ystyried y cryfaf. "Gad i fi gael y cynyg cyntaf," ebe y gwynt wrth yr haul, "a thi a gei weled mor hawdd ydyw y gwaith i mi."

"Wel, dechreu," meddai yr haul. "Dyro brawf o'r cryfder yr wyt yn ymfrostio ynddo bob tro y cwrddwn."

Gyda hyn dyma y gwynt yn dechreu ar ei waith. Chwythodd â'i holl egni. Teimlodd y dyn yr oerfel, a thynodd y fantell yn dynach am dano. Parhaodd y gwynt i chwythu nes i'r dw'r ddechreu rhedeg o lygaid y teithiwr. Tynodd y dyn y fantell yn agosach fyth. Bu y gwynt bron a cholli ei dymher wrth weled y dyn yn dal ei afael mor dyn yn ei fantell, a chwythodd gyda'r fath nerth nes y methodd y dyn a myned gam yn mlaen.

Syrthiodd y dyn ar y llawr, a thynodd ei fantell mor dyn ag y gallai am dano, gan wneud ei feddwl i orwedd yn y fan hono hyd nes y tawelai y gwynt.

"Dyna ti wedi methu," meddai yr haul, gan chwerthin yn ngwyneb y gwynt. "Yn awr fy nhro i ydyw."

"Dy dro di yn wir," meddai y gwynt. "A ydwyt ti yn ddigon ffol i feddwl y galli di wneud yr hyn yr wyf fi yn rhy wan i'w wneuthur? Ond mae yn deg i ti gael cynyg. Dechreu haul. a Gofala chwythu yn gryf."

Ond ni chwythodd yr haul o gwbl. Agorodd ei lygaid mawr. Gwenodd dros ei holl wyneb. Ni wnaeth un swn. Taflodd o'r neilldu y cwmwl du lle yr ymguddiai tra bu y gwynt wrth ei waith. Cyrhaeddodd ei belydrau y dyn oedd yn gorwedd yn y ffos.

Pan gafodd hwnw fod y gwynt wedi dystewi, cododd, ac aeth yn mlaen ar ei daith. Yr oedd yn cadw gafael dyn yn ei fantell hyd yn hyn.

"Mae yr hin wedi newid yn ddisymwth," meddai wrtho ei hun. "Gallaf dynu fy mantell yn rhydd yn awr."

Yr oedd yr haul erbyn hyn yn dysgleirio yn danbaid. Teimlodd y dyn ei wres. Cerddodd yn arafach.

“Fum i ddim allan ar ddiwrnod poethach erioed,” meddai wrtho ei hun. “Mae yn rhaid i mi dynu y fantell yma i ffwrdd, onide ni chyrhaeddaf ben fy nhaith heno.” A gyda'r gair wele ef yn ei thafu oddiar ei ysgwyddau.

“Ha! ha!” meddai yr haul, “B'le yr wyt ti 'nawr Meistr Gwynt? Pwy ydyw y cryfaf?”

“Wel,” meddai y gwynt, “mae yn wir iti i lwyddo i dynu y fantell oddiar ysgwyddau y dyn, ond nid wyf yn hoffi dy gynllun di o weithio. Yr wyt yn rhy ddistaw wrth dy waith. Yr wyf fi yn hoffi cadw ychydig swm fel y gallo eraill wybod fy mod yn gweithio.”

“Diolch i ti am dy ganmoliaeth oer,” meddai yr haul; “yr wyf yn foddolawn i ti gymeryd y cynllun a fynot i weithio, ac mi obeithiaf dy fod yn barod i ganiatau i minau yr un rhyddid.”

Rhoddodd y gwynt un ochenaid, ac ni chlywyd ei lais wedi hyny drwy y dydd.

23.—TY AR DAN—(A House on Fire).

“Tân! tân! tân!”

Dychrynodd y floedd y bobl o'u cwsg. Agorasant eu ffenestri er mwyn cael allan yn mha le yr oedd y tân.

Llanwyd yr ystryd gan ddynion yn rhedeg am y cyntaf tuag at y tŷ oedd ar dân, gan obeithio bod mewn pryd i achub bywydau y rhai oedd yn preswyllo ynddo.

Ymgasglodd torf fawr o gylch y tŷ mewn amser byr. Esgynai'r fflamau i'r awyr gan wneuthur y nos dywell mor oleu a'r dydd.

Ofnai y dyrfa na achubid un o'r bobl druenus oedd yn byw yn y tŷ. Nid oedd gan neb o honynt un cymhorth i roddi i'w cyfeillion oeddynt yn garcharorion i'r fflamau.

Ond er eu mawr lawenydd torodd y llef ganlynol ar eu clustiau—"Gwnewch ffordd!" Ac wele y dorf yn ymagor, a dynesodd y peiriant tân at y tŷ oedd yn llosgi.

Yr oedd digon o freichiau cryfion a chalonau ewyllsgar yn barod i'w weithio, ac yn fuan yr oedd ffrydiau mawrion o ddwfr yn cael eu tywallt ar y fflamau.

Rhedodd rhai o'r tanwyr âg ysgol at un o'r ffenestri, ac achubasant wr a gwraig a dau blentyn.

Pan ddihunodd y fam o lewyg i'r hwn y syrthiodd pan yr achubwyd hi, gwaeddodd "Gwilym! Gwilym! y mae Gwilym bach yn y gwely!"

Rhedodd at yr ysgol er mwyn achub ei baban o'r tân.

Tynwyd hi yn ol gan un o'r tanwyr, yr hwn a aeth i fyny gan benderfynu achub yr un bach.

O! fel yr hiraethai y dyrfa am ei weled yn dyfod yn ol o ganol y mwg a'r tân.

Cynyddai y tân. Cynyddai pryder y bobl. "Y mae wedi syrthio yn aberth i'r tân!" meddai un wrth y llall.

Ond wele y tanwr dewr yn dyfod at yr ysgol gan gario Gwilym bach yn ei freichiau. Disgynodd yn ofalus ar hyd yr ysgol.

Rhoddodd y baban i'r fam; ac y mae yn anhawdd gwybod pa un ai y fam wrth dderbyn y baban, neu y tanwr wrth ei achub, oedd yn mwynhau y pleser mwyaf.

Nis gall y rhai oedd yn bresenol anghofio yr "hwre" a roddwyd i'r tanwr glew pan y dododd y plentyn yn mynwes y fam.

24.—YR ESTRYS—(The Ostrich).

Yr estrys ydyw yr aderyn mwyaf yn y byd. Nid ydyw yn gallu ehedeg fel y gall y rhan fwyaf o adar. Mae ei gorff mor drwm, a'i adenydd mor fach fel nas gallant ei godi i'r awyr.

Pan mae adar mewn perygl o syrthio yn nwyllaw rhyw elyn, y maent yn hedfan i ffwrdd; ond nis gall yr estrys wneuthur felly.

Sut y mae ef yn dianc ?

Mae yr estrys yn rhedeg.

Mae ei goesau yn hirion, ac mae ei adenydd yn ei gynorthwyo i fyned yn gyflym. Y mae yn gallu rhedeg mor gyflym a cheffyl. Defnyddia ei adenydd byrion fel y mae plant yn defnyddio eu breichiau pan yn rhedeg.

Pan byddo yr estrys wedi blino rhedeg, cuddia ei ben mewn llwyn, neu yn y tywod, a theimla yn ddyogel, heb feddwl fod ei gorff mawr yn y golwg.

Mae ei gartref yn Affrica. Dywedir ei fod yn gallu bwyta cerig, coed, ac hyd y nod ddarnau o haiarn.


Nid ydyw yr estrys yn myned i lawer o drafferth wrth wneud nyth. Pant bychan yn y tywod ydyw yr oll y mae yn geisio, ac yno y gesyd ei wyau. Nid ydyw yn eistedd ar yr wyau fel y gwna adar eraill. Y mae gwres yr haul yn eu deori.

Mae yr wyau yn rhai mawr iawn, ac y mae y plisgyn yn drwchus ac yn gryf, a defnyddir ef gan y brodorion i gario dwfr. Gellir gweled y benywod yn myned i'r ffynon, a chanddynt ugain neu ragor o'r plisg mewn rhwyd ar eu cefnau.

Yr hyn sydd yn gwneuthur yr estrys yn nodedig, ydyw y pluf mawrion sydd yn tyfu ar ei gorff. Y mae un plufyn yn werth llawer o arian. Gwisgir hwynt gan foneddesau ein gwlad yn eu hetiau.

Yr ydym i gyd wedi clywed am "dair pluen" Tywysog Cymru. Y mae ef yn ddyledus i'r estrys am y pluf hyn.

Y mae yr estrys yn aderyn cryf. Pan ddelir ef yn ieuanc y mae yn hawdd ei ddofi, ac y mae i'w weled weithiau yn cario plant ei berchenog ar ei gefn.



B

NOTE.—Words commencing radically with *B* are sometimes inflected so as to commence with *F* or *M*, as *brawd*, *frawd*, *mrrawd* (brother).

Others commencing radically with *P*, change the *P* into *B* under certain conditions, as *pen*, *ben* (head).

For Rules for these see Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>balch-ach</i>	-	-	-	-	-	proud-er
<i>barn</i>	judgment
<i>Beibl-au</i> , m.	Bible-s
<i>beiddi.o</i> -(odd, af, wch, ant)	to dare
<i>benyw-od</i> , f.	female-s, wom.an-en
(o'r) <i>blaen</i>	before
<i>b'le</i> (pa le)	where
<i>bloedd-iadau</i> , f.	shout-s
<i>blodyn</i> , <i>blodau</i> , m.	flower-s
<i>blwydd-i</i> , f.	year-s
<i>bodddhad</i> , m.	satisfaction
<i>boddlawn</i>	willing, satisfied
<i>boneddes-au</i> , f.	lad.y-ies
<i>brawd</i> , <i>brodyr</i> , m.	brother-s
<i>bro-ydd</i> , f.	place-s, land-s
<i>brodor-ion</i> , m.	native-s
<i>bron</i>	almost
<i>brwthyn-od</i> , m.	cottage-s
<i>bychan</i>	small
<i>bydd</i> -(af, ant, i, wch)	to be
<i>bydded</i>	let
<i>byddin-oedd</i> , f.	arm.y-ies
<i>bynag</i>	ever
<i>byr</i> (s.)-af, <i>ion</i> (pl.)	short-er
<i>bywyd-au</i> , m.	life, lives

C

NOTE.—Words commencing radically with *C* are sometimes inflected so as to commence with *G*, *Ngh*, or *Ch*, as *caer*, *gaer*, *nghaer*, *chaer* (wall, fort).

For Rules for these changes see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>cadben-iaid</i> , m.	captain-s
<i>cael</i>	to have
<i>Caerdydd</i>	Cardiff
<i>Caergybi</i>	Holyhead
<i>calonogol</i>	encouraging
<i>cam-rau</i> , m.	step-s

C—continued.

<i>can-euon</i> , f.	-	-	-	-	-	-	song-s
<i>caniatad</i> , m.	-	-	-	-	-	-	permission
<i>canlyn-ol</i>	-	-	-	-	-	-	follow-ing
<i>canmoliaeth</i> , f.	-	-	-	-	-	-	praise, commendation
<i>carcharor-ion</i> , m.	-	-	-	-	-	-	prisoner-s
<i>careg, cerig</i> , f.	-	-	-	-	-	-	stone-s
<i>cartref-i</i> , m.	-	-	-	-	-	-	home-s
<i>castell, cestyll</i> , m.	-	-	-	-	-	-	castle-s
<i>cawci-od</i> , m.	-	-	-	-	-	-	jackdaw-s
<i>cefn-au</i> , m.	-	-	-	-	-	-	back-s
<i>cei</i>	-	-	-	-	-	-	thou shalt
<i>cerddediad</i> , m.	-	-	-	-	-	-	walk, gait
<i>clær-ddu</i>	-	-	-	-	-	-	bright black
<i>clir</i>	-	-	-	-	-	-	clear
<i>cloch, clychau</i> , f.	-	-	-	-	-	-	bell-s
<i>clod-ydd</i> , m.	-	-	-	-	-	-	praise-s, fame
<i>clyw.ed</i> -(af, i, ant)	-	-	-	-	-	-	to hear
<i>coes-au</i> , f.	-	-	-	-	-	-	leg-s
<i>coron-au</i> , f.	-	-	-	-	-	-	crown-s
<i>corwynt-oedd</i> , m.	-	-	-	-	-	-	hurricane-s
<i>croesaw.i</i> -(af, wch, ant)	-	-	-	-	-	-	to welcome
<i>cryd</i> , m.	-	-	-	-	-	-	cradle
<i>cryf.af-ion</i> (pl.)	-	-	-	-	-	-	strong-er
<i>cumpas</i>	-	-	-	-	-	-	about, surrounding
<i>cumpawd</i> , m.	-	-	-	-	-	-	compass
<i>cwmwl, cymylau</i> , m.	-	-	-	-	-	-	cloud-s
<i>cwrddun</i>	-	-	-	-	-	-	we meet
<i>cwsg</i>	-	-	-	-	-	-	sleep
<i>cyf.lwr-lyrau</i> , m.	-	-	-	-	-	-	state-s, condition-s
<i>cyfrif</i> , m.	-	-	-	-	-	-	reckoning, account
<i>cymdeithas-au</i> , f.	-	-	-	-	-	-	societ.y-ies
<i>cymhorth</i> m.	-	-	-	-	-	-	help
<i>Cymraeg</i> , f.	-	-	-	-	-	-	Welsh (language)
<i>Cymru</i> , f.	-	-	-	-	-	-	Wales
<i>cynhes</i>	-	-	-	-	-	-	warm
<i>cynllun-iau</i> , m.	-	-	-	-	-	-	plan-s, method-s
<i>cyntaf</i>	-	-	-	-	-	-	first
<i>cyson</i>	-	-	-	-	-	-	regular
<i>cysur-us</i>	-	-	-	-	-	-	comfort-able

Ch

NOTE.—Some words commencing radically with C, change the C into Ch under certain conditions, as *cyfaill, chyfaill* (friend).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

D—continued.

<i>dyrysych</i> , m.	puzzle
<i>dysg-u</i> (<i>af</i> , <i>ant</i> , <i>wch</i>)	to learn, to teach
<i>dysgwyl</i>	to expect

Dd

NOTE.—No Welsh word commences radically with *Dd*. Such words as commence with *Dd* are inflected from the radical initial *D*, as *dafad*, *DDafad* (sheep).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

E

NOTE.—Words commencing radically with *E*, sometimes have the *H* prefixed, as *egni*, *hegn* (might).

Others commencing radically with *G*, under certain circumstances drop the *G*, leaving the *E* as the initial, as *gen*, *en* (mouth).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>eich</i>	your
<i>egni</i> , m.	might
<i>enbyd</i>	dangerous
<i>er</i>	for
<i>erioed</i>	ever (past time), never
<i>esgyn</i> (<i>af</i> , <i>wch</i> , <i>ant</i>)	to ascend
<i>estron-iaid</i> , m.	stranger-s
<i>estrys-od</i> , m.	ostrich-es
<i>etifedd-ion</i> , m.	heir-s
<i>etifeddes-au</i> , f.	heiress-es
<i>eu</i>	their
<i>ewyllys-gar</i>	willing

F

NOTE.—Words commencing radically with *F* undergo no initial change. Words commencing radically with *B* or *M* change these letters for *F* under certain circumstances, as *brawd*, *Frawd* (brother), *mam*, *Fam* (mother).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Initial Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>fry</i>	up, above
------------	---	---	---	---	---	---	-----------

Ff

NOTE.—Words commencing radically with *Ff* undergo no initial change. Most ordinary nouns commencing with *Ff* are of the feminine gender.

<i>ffajr-au</i> , f.	-	-	-	-	-	favor-s
<i>fferm.dy-dai</i> , m.	farm.house-s
<i>fflam-au</i> , f.	flame-s
<i>ffordd</i> , <i>ffyrdd</i> , f.	road-s
<i>ffos-ydd</i> , f.	ditch-es
<i>ffrwd</i> , <i>ffrydiau</i> , f.	brook-s, stream-s

G

NOTE.—Words commencing radically with *G* are sometimes inflected so as to drop the *G*, leaving the following letter, whether Vowel or Consonant, as the Initial; or it changes into *Ng*, as *galar*, *alar*, *ngalar* (grief), *glan*, *Lan*, *nglan* (shore), *gris*, *ris*, *ngris* (step), *gwledd*, *wledd*, *ngwledd* (feast).

Others commencing radically with *C*, change the *C* into *G* under certain circumstances, as *cysaill*, *gyfaill* (friend).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical Forms **only** are given in the Vocabulary.

<i>gad</i>	-	-	-	-	-	let
<i>gair</i> , <i>geiriau</i> , m.	word-s
<i>gauaf-au</i> , m.	winter-s
<i>gelyn-ion</i> , m.	enem.y-ies
<i>glew</i>	-	-	-	-	-	brave, gallant
<i>goleu</i>	-	-	-	-	-	light
<i>gol.wg-ysfeydd</i> , f.	sight-s
<i>gorsedd-au</i> , f.	throne-s
<i>gostyngedig</i>	-	-	-	-	-	humble
<i>gwad.u</i> -(af, ant, wch)	to deny
<i>gwaedd.i</i> -(af, ant, wch)	to shout
<i>gwaeth</i>	-	-	-	-	-	worse
<i>gwahaniaeth</i>	-	-	-	-	-	difference
(llawer) <i>gwaith</i>	(many) times
<i>gwaith</i> , <i>gweithiau</i> ,	work-s
(g) <i>weithiau</i>	sometimes
(o) <i>gwbl</i>	-	-	-	-	-	at all
<i>gweithred-odd</i> , f.	act-s
<i>gwell</i>	-	-	-	-	-	better
<i>gwen.u</i> -(af, wch, ant)	to smile
<i>gwers-i</i> , f.	lesson-s
<i>gwerth.u</i> -(af, ant, wch)	to sell
(ar) <i>werth</i>	-	-	-	-	-	(on) sale
<i>gwin-odd</i> , m.	wine-s

G—continued.

<i>gwata ydd</i> , m.	rain-s
<i>gwnaf</i>	I will do
<i>gwnaeth</i>	he, she, or it did
<i>gwresawol</i>	welcome
<i>gwyh</i>	gay
<i>gwyddat</i>	he knew
<i>Gwilym</i>	William
<i>gwyneb-au</i> , m.	face-s
(o) <i>gylch</i>	about, around
(mor) <i>gynted</i>	as soon as

Ng and Ngh

NOTE.—No Welsh word commences radically with *Ng* or *Ngh*. Such words as commence with *Ng* or *Ngh* are inflected from the radical *G* or *C*, as *gai*, *ngair* (word), *cân*, *ngân* (song).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

H

NOTE.—Words commencing radically with *H* undergo no initial change. Some words, however, which commence radically with a vowel have the *H* prefixed under certain circumstances. as *A lod*, *haelod* (member), *enw*, *henw* (name).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>ha</i> , <i>ha</i>	ha, ha
<i>haiarn</i> , m.	iron
<i>hanes-ion</i> , m.	stor.y-ies
<i>hapus</i>	happy
<i>Harri</i>	Henry
<i>hedfan</i>	to fly
<i>heol-ydd</i> , f.	road-s
<i>hin</i> , f.	weather
<i>hon</i> , f. <i>hwn</i> , m.	this
<i>hongian</i>	hanging
(o) <i>honi</i>	from her
<i>hono</i> , f. <i>hunw</i> , m.	that
<i>hwre</i>	hurrah
<i>hyd yn nod</i>	even
<i>hynaf</i>	eldest
<i>hynl</i> , f.	journey
<i>hyny</i>	that, these

I

NOTE.—Words commencing radically with *I* sometimes have the *H* prefixed, as *iaith*, *hith* (language).

A few others commencing radically with *Gi*, drop the *G* under certain conditions, leaving the *I* as the initial, as *giar*, *iar* (hen).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Initial Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>iach</i>	-	-	-	-	-	healthy
<i>Iorwerth</i>	-	-	-	-	-	Edward
<i>isaf</i>	-	-	-	-	-	lowest

L

NOTE.—Only a few Welsh words commence radically with *L*. Most words commencing with *L* are inflected from the radical *Ll*, as *llaw*, *Law* (hand); or have dropped the initial *G*, *glan*, *lan* (shore).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Initial Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

LI

NOTE.—Words commencing radically with *Ll* are sometimes inflected so as to commence with *L*, as *llaw*, *Law* (hand), *llaeth*, *laeth* (milk).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Initial Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>llewyg-feydd</i> , f.	-	-	-	-	-	swoon-s
<i>llid</i> , m.	-	-	-	-	-	anger
<i>llofrudd-ion</i> , m.	-	-	-	-	-	murderer-s
<i>llogell-au</i> , f.	-	-	-	-	-	pocket-s
<i>lluddedig</i>	-	-	-	-	-	weary, tired
<i>Llundain</i>	-	-	-	-	-	London
<i>Llyaaw</i>	-	-	-	-	-	Brittany
<i>llynges-au</i> , f.	-	-	-	-	-	fleet-s
<i>llysienuol</i>	-	-	-	-	-	vegetable (adj.)

M

NOTE.—Words commencing radically with *M* are sometimes inflected so as to commence with *F*, as *mab*, *fab* (son).

Others commencing radically with *B*, change the *B* into *M* under certain conditions, as *brawd*, *mrawd* (brother).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Initial Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>mab</i> , <i>meibion</i> , m.	-	-	-	-	-	son-s
<i>machlud-iad</i> , m.	-	-	-	-	-	set-ting
<i>mag.ii</i> (-af, ant, wch)	-	-	-	-	-	to nurse
<i>mai</i>	-	-	-	-	-	that
<i>maint</i> , m.	-	-	-	-	-	size

M—continued.

<i>mantell, mentyll, f.</i>	mantle-s
<i>math</i>	such
<i>maron, m.</i>	peat, turf
<i>marwrhydi</i>	majesty
<i>mebyd, m.</i>	:	youth
<i>med.i -(af, wch, ant)</i>	to reap
<i>meistr-i, m.</i>	master-s
<i>mel, m.</i>	honey
<i>milldir-oedd, f.</i>	mile-s
<i>Mon, f.</i>	Anglesey
<i>mor.wor, -wyr, m.</i>	sailor-s
<i>mrog, m.</i>	smoke
<i>mwawl</i>	mineral [(adv.)
<i>mwych</i>	more (adj.), more
<i>myfi</i>	I
<i>myn.u -(af, ant, wch)</i>	to will, to determine
<i>mynwes-au, f.</i>	bosom-s
<i>mynych</i>	frequent

Mh

NOTE.—No Welsh word commences radically with *Mh*, but the initial consonant *P* is under certain conditions inflected into *Mh*, as *Pen*, *MHEN* (head).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

N

NOTE.—Words commencing radically with *N* undergo no initial change. Never add *H* to the radical *N*. *nhatur* is never used for *natur* (Nature). Words commencing radically with *D*, however, change the *D* into *N* under certain circumstances, as *drws*, *nrrws* (door).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>nas</i>	not, that not
<i>nef-oedd (ne'), f.</i>	heaven-s
<i>neilldu</i>	one side
<i>newyde'</i>	new
<i>ni</i>	not
<i>nodedig</i>	noted
<i>noeth</i>	naked
<i>nyth-ed, m.</i>	nest-s

Nh

NOTE.—No Welsh word commences radically with *Nh*. The Initial Consonant *T* is, however, under certain circumstances, inflected into *Nh*, as *rad*, *nhad* (father).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

O

NOTE.—Words commencing radically with *O* sometimes have the *H* prefixed, as *oed*, *hoed* (old).

Others commencing radically with *Go* drop the *G* under certain conditions, leaving the *O* as the initial letter, as *gofal*, *ofal* (care).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>oblegid</i>	-	-	-	-	-	-	because
<i>ochen.aid-eidiau</i> , f.	-	-	-	-	-	-	sigh-s
<i>oddiar</i>	-	-	-	-	-	-	since
<i>oer</i> , <i>oerfel</i>	-	-	-	-	-	-	cold
<i>oherwydd</i>	-	-	-	-	-	-	because
<i>(yn) ol</i>	-	-	-	-	-	-	back
<i>ol-ion</i> , m.	-	-	-	-	-	-	sign-s, remnant-s
<i>oll</i>	-	-	-	-	-	-	all
<i>ond</i>	-	-	-	-	-	-	but
<i>oni</i>	-	-	-	-	-	-	can't, is'n't
<i>onide</i>	-	-	-	-	-	-	or else

P

NOTE.—Words commencing radically with *P* are sometimes inflected so as to commence with *B*, *Mh*, or *Ph*, as *pen*, *ben*, *mhen*, *phen* (head).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>paen-od</i> , m.	-	-	-	-	-	-	peacock-s
<i>palas-au</i> , m.	-	-	-	-	-	-	palace-s
<i>pant-au</i> , m.	-	-	-	-	-	-	hollow
<i>peidi.o</i> (<i>af</i> , <i>ant</i> , <i>wch</i>)	-	-	-	-	-	-	to leave off
<i>peirian</i> , <i>peirianau</i> , m.	-	-	-	-	-	-	engine-s
<i>pelydr-au</i> , m.	-	-	-	-	-	-	rays
<i>Penfro</i>	-	-	-	-	-	-	Pembroke
<i>pentref-i</i> , m.	-	-	-	-	-	-	village-s
<i>perthynas-au</i> , m.	-	-	-	-	-	-	relation-s
<i>plerer-au</i> , m.	-	-	-	-	-	-	pleasure-s
<i>plisgyn</i> , <i>plisg</i> , m.	-	-	-	-	-	-	shell-s
<i>pluen</i> , <i>plu</i> , f.	-	-	-	-	-	-	feather-s
<i>pobl-oedd</i>	-	-	-	-	-	-	people-s

P--continued.

<i>poen.i</i> (af, ant, wch)	-	-	-	-	-	to pain
<i>posibl</i>	possible
<i>presenol</i>	present
<i>pryd-iau</i>	time-s, meal-s
<i>pryder.u</i> (af, ant, wch)	-	-	-	-	-	to be anxious
<i>pump</i>	five
<i>pr.y</i>	who
<i>pr.y bynag</i>	whoever

Ph

NOTE.—Hardly any Welsh words commence radically with *Ph*. Such words as commence with *Ph* are mostly inflected from the radical *P*, as *pen*, *PHEN* (head).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

R

NOTE.—Words commencing radically with *Rh* are sometimes inflected so as to commence with *R*, as *RHAN*, *RAN* (share).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

Rh

NOTE.—Words commencing radically with *Rh* are sometimes inflected so as to commence with *R*, as *RHAN*, *RAN* (share).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>rhagor</i>	-	more
<i>rhwyd-au</i> , f.	net-s
<i>rhydd</i>	free, loose
<i>rhyddid</i> , m.	freedom

S

NOTE.—Words commencing with *S* undergo no initial change.

<i>Saesneg</i> , f.	-	English (language)
<i>sefyllfa-oedd</i> , f.	position-s
<i>sir-oedd</i> , f.	shire-s
<i>sicr</i> , <i>siwr</i>	sure, certain
<i>son</i>	-	a report
<i>son</i> -(iaf, iant, iwch)	-	to mention
<i>sydd</i>	-	is
<i>syth.u</i> (af, ant, wch)	to freeze

T

NOTE.—Words commencing radically with *T* are sometimes inflected so as to commence with *D*, *Nh*, or *Th*, as *tad*, *dad*, *nhad*, *thad* (father)

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>aif.u</i> -(af, ant, wch)	to throw
<i>tair-ar-ddeg</i> , f.	thirteen
<i>tanbaid</i>	bright
<i>tan.wr</i> , -wyr, m.	fire man, -men
<i>tawel</i>	quiet
<i>teitwng</i>	worthy
<i>teulu-oedd</i> , m.	family-ies
<i>Tewdwr</i>	Tudor
<i>teyrnas-oedd</i> , f.	kingdom-s
<i>tlawd</i>	poor
<i>tlws</i> , m., <i>tlos</i> , f.	pretty, beautiful
<i>toriad</i>	break
<i>torf-eydd</i> , f.	crowd-s
<i>traeth-au</i> , m.	shore-s
<i>trafferth-ion</i> , m.	trouble-s
<i>trai</i> , m.	ebb, tide
<i>tramor</i>	foreign
<i>trei.o</i> -(af, ant, wch)	to try
<i>trigolion</i> , m.	inhabitants
<i>trin-iaeth</i> , f.	manage-ment, treat-
<i>tro-ion</i> , m.	turn-s [ment]
<i>troednoeth</i>	barefooted
<i>truenus</i>	miserable
<i>trwchus</i>	thick
<i>trwm</i>	heavy
<i>twill</i> , <i>tyllau</i> , m.	hole-s
<i>twyll.wr</i> -wyr, m.	deceiver-s
<i>twr</i> , <i>tyrau</i> , m.	tower-s
<i>Tyddewi</i>	St. David's
<i>tymher</i> , f.	temper
<i>tyn-ach</i>	tight-er
<i>tyrja-oedd</i> , f.	crowd-s
<i>tywallyt</i> -(af, ant, wch)	to pour
<i>tywodyn</i> , <i>tywod</i> , m.	sand-s
<i>tywyll</i> , m., <i>tywell</i> , f.	dark
<i>tywysog-ion</i> , m:	prince-s
<i>tywysoges-au</i> , f.	princess-es

Th

NOTE.—No Welsh word commences radically with *Th*. Such words as commence with *Th* are inflected from the radical *T*, as *rad*, *rhad* (father).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

U

NOTE.—Words commencing radically with *U* sometimes have the *H* prefixed, as *ugain*, *hugain* (twenty).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>uchel</i>	-	-	-	-	-	-	-	high
(<i>yr</i>) <i>un</i>	the same
<i>uwch-ben</i>	over-head, above

W

NOTE.—Words commencing radically with *Gw*, drop the *G* under certain conditions, leaving the *W* as the initial letter, as *gwaith*, *waith* (work).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

Though, as a rule, only the Radical forms of words are given in the Vocabulary, it has been deemed advisable to retain a few of the inflected forms under *W* which are in more common use, as *wedi* (after), from *gwedi*, &c.

<i>wedi</i>	-	-	-	-	-	-	-	had, after
(<i>yn</i>) <i>wir</i>	-	-	-	-	-	-	-	indeed
<i>wy-au</i> , m. or f.	-	-	-	-	-	-	-	egg-s

Y

NOTE.—Words commencing radically with *Y* sometimes have the *H* prefixed, as *ychain* *hychain* (oxen).

For Rules for these see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants, Stage I.

The Radical forms only are given in the Vocabulary.

<i>ymagor</i>	-	-	-	-	-	-	-	to open itself
<i>ymun.o</i> -(<i>af</i> , <i>ant</i> , <i>wch</i>)	-	-	-	-	-	-	-	to join
<i>ymtwisg.o</i> -(<i>af</i> , <i>ant</i> , <i>wch</i>)	-	-	-	-	-	-	-	to dress himself or
<i>yntau</i>	-	-	-	-	-	-	-	him [herself]
<i>yn nghyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	together
<i>yn nghylch</i>	-	-	-	-	-	-	-	about
<i>ysgol-ion</i> , f.	-	-	-	-	-	-	-	ladder-s
<i>ysgol-ion</i> , f.	-	-	-	-	-	-	-	school-s
<i>ysgwyddl-au</i> , f.	-	-	-	-	-	-	-	shoulder-s
<i>ystryd-oedd</i> , f.	-	-	-	-	-	-	-	street-s
<i>ystorm-yod</i> , f.	-	-	-	-	-	-	-	storm-s

X

